

Polisi Rheoli Meddyginiaeth

1 Rhagarweiniad

Mae'r polisi hwn yn rhan o bolisi Iechyd a Diogelwch yr Ysgol. Mae'r Pennaeth, gyda chefnogaeth y Corff Llywodraethol, yn cytuno i ddarparu meddyginiaethau yn yr ysgol.

2 Prif nod y polisi

- Mae'n dehongli trefn weithredol ddiogel ar gyfer gofal meddygol y disgyblion.
- Mae'n diffinio cyfrifoldebau staff y ganolfan.

3 Ffactorau sydd yn dylanwadu ar ofal meddygol

Canllawiau oddi fewn i Ffeil 'Polisi Iechyd a Diogelwch', Cyngor Gwynedd.
Canllawiau oddi mewn i Ffeil 'Anghenion Meddygol mewn ysgol', Cyngor Gwynedd.

4 Materion personél

- Mae unrhyw aelod o staff sy'n cytuno i ddarparu meddyginiaeth i ddisgyblion yn gwneud hynny ar sail wirfoddol.
- Rhaid i staff dderbyn hyfforddiant cywir cyn cael caniatâd i roi meddyginiaeth i ddisgybl.

5 Materion rheolaethol

- Rhaid derbyn ffurflen caniatâd rhiant i roi meddyginiaeth cyn i'r pennaeth gytuno i roi moddion.
- Bydd staff yr ysgol yn cofnodi pob meddyginiaeth.
- Hysbysir rhiant am unrhyw sgil-ffaith i gymryd y moddion.
- Rhaid hysbysu rhiant am unrhyw ddifrod i cynhwysydd neu golli meddyginiaeth.
- Dylai staff wneud yn sicr y caiff preifatrwydd a balchder y disgybl ei amddiffyn.
- Os oes angen triniaeth bersonol neu ymyrgar ar ddisgybl, dylai dau aelod o staff fod yn bresennol; rhaid i un fod o'r un rhyw â'r disgybl.

6 Materion argyfwng

Os yw'r disgybl yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth, ni ddylid ei orfodi i wneud hynny. Rhaid hysbysu'r rhieni. Os yw y sefyllfa yn arwain at sefyllfa o argyfwng rhaid cael cymorth meddygol proffesiynol a hysbysu'r rhieni ar unwaith.

7 Cadw meddyginiaethau

- Ni fydd yr ysgol yn derbyn unrhyw feddyginiaeth nad yw yn ei gynhwysydd gwreiddiol.
- Rhaid labelu pob meddyginiaeth yn eglur gyda enw y disgybl. (Bocs)
- Cyfrifoldeb y rhiant yw darparu digon o'r meddyginiaeth.
- Rhaid cadw pob meddyginiaeth mewn cabinet wedi ei gloi yn y swyddfa.
- Bydd rhaid gwneud darpariaeth arbennig a diogel ar gyfer cadw rhai meddyginiaethau mewn oergell bwrpasol.
- Ni ddylai staff waredu unrhyw feddyginiaeth sydd heb ei ddefnyddio. Dyma gyfrifoldeb y rhiant. Os nad yw hyn yn bosibl gall y nyrs ysgol gael gwared ag unrhyw feddyginiaeth sydd heb ei ddefnyddio.
- Caniateir i ddisgyblion y credir eu bod yn ddigon aeddfed i gymryd cyfrifoldeb am eu hanadlwyr asthma ei gario gyda hwy cyn belled a bod rhiant wedi arwyddo caniatâd.

8 Gweithgareddau oddi ar y safle

Dylid cario unrhyw feddyginiaeth angenrheidiol gan yr aelod o staff sy'n gyfrifol am y gweithgaredd neu aelod â chymhwyster cymorth cyntaf. Dylai'r disgybl fod mewn grŵp lle mae'r meddyginiaeth yn cael ei gario.

9 Dylanwadir ar y polisi gan benderfyniadau

Ysgol Dyffryn Nantlle, Ffordd y Brenin, Pen-y-groes, Gwynedd LL54 6RL

Mae'r Ddeddf Iechyd, Diogelwch a Lles yn y Gwaith 1974 yn datgan bod angen i bob cyflogwr(sy'n cyflogi mwy na 5 o bobl) ddarparu ac adolygu fel bo angen ddatganiad ysgrifenedig o bolisi cyffredinol yng nghyswllt iechyd, diogelwch a lles ei weithwyr yn y man gwaith.

10 Datblygu, gweithredu ac adolygu y polisi

Cymeradwyo adolygiad blynyddol o'r polisi.